

EDWARDS, LEWIS (1809 - 1887), prifathro Coleg y Bala am 50 mlynedd, athro a diwinydd

Enw: Lewis Edwards

Dyddiad geni: 1809

Dyddiad marw: 1887

Priod: Jane Edwards (née Charles)

Plentyn: Thomas Charles Edwards

Rhiant: Margaret Edward

Rhiant: Lewis Edward

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: prifathro Coleg y Bala am 50 mlynedd, athro a diwinydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg

Awdur: Trebor Lloyd Evans

Ganwyd 27 Hydref 1809 yn Pwllcenawon, Pen-llwyn, Sir Aberteifi, mab hynaf Lewis a Margaret Edward. Mynychodd ysgolion ei ardal a gynhelid yng Nglanrafon, Penybank, a chapel Methodistiaid Calфинаidd Pen-llwyn. Bu dan addysg hefyd yn ysgolion Llanfihangel-genau'r Glyn, ysgol [John Evans](#), Aberystwyth, a Llangeitho. Yn 1827 agorodd ysgol fechan ei hun yn Aberystwyth, ond symudodd yn fuan i fod yn athro ysgol Llangeitho. Ymhen blwyddyn aeth yn athro preifat i deulu John Lloyd, Pentowyn, Meidrym, Sir Gaerfyrddin.

Tra oedd yn Llangeitho ymgyflwynodd i waith y weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac yng Nghymdeithasfa Llangeitho, Awst 1829, derbyniwyd ef yn bregethwr rheolaidd o'r Corff; ond mawr oedd ei awydd am ragor o addysg, a chafodd ganiatâd Cymdeithasfa Woodstock, Hydref 1830, i fyned i goleg y 'Seceders' yn Belfast, eithr i Lundain yr aeth. Bu yno am flwyddyn (yn y coleg a ddaeth wedyn yn Brifysgol Llundain), ond ni chaniatâi amgylchiadau iddo aros yn hwy, ac aeth yn genhadwr cartrefol i Dalacharn, Sir Gaerfyrddin. Agorodd ysgol yno hefyd, ond nid oedd diwallu ar ei wanc am ragor o addysg iddo'i hun, a mynnodd ef, ac un o'i ddisgyblion, [John Phillips](#), fyned i Brifysgol Edinburg, Hydref 1833, at ei arwyr Thomas Chalmers a 'Christopher North.' Cafodd ganiatâd i eistedd am radd M.A. mewn tair blynedd yn lle pedair a llwyddodd yn anrhydeddus. Yn 1865 derbyniodd radd D.D., er anrhydedd, Prifysgol Edinburg.

Priododd, 30 Rhagfyr 1836, Jane Charles, wyres [Thomas Charles](#) o'r Bala, a'r flwyddyn ddilynol agorodd ef a'i frawd-yng-nghyfraith, [David Charles III](#), ysgol yn y Bala, a fabwysiadwyd maes o law yn athrofa i bregethwyr y Methodistiaid Calфинаidd. Yma y gwnaeth ef waith mawr ei fywyd gan argyhoeddi'r Methodistiaid Calфинаidd o werth gweinidogaeth ddysgedig, a phregethu pwysigrwydd dysg a diwylliant i'r genedl gyfan. Daeth yn arweinydd amlwg yn ei gyfundeb, gan newid llawer arno i gyfeiriad Presbyteriaeth. Dadleuodd yn frwd dros y drefn henaduriaethol, y fugeiliaeth, y gronfa gynnal, cymanfa gyffredinol, a'r achosion Saesneg. Un arwydd o'i boblogrwydd cyfundebol a chenedlaethol ydoedd iddo dderbyn tysteb o £2,600 yn 1875.

Ystyrir ef yn bregethwr mawr yn ei ddydd, ond credai ef ei hun lawn cymaint yn y Wasg ag yn y pulpud. Mawr ei gred mewn

cylchgronau a chyfnodolion, ac yn 1844 golygodd *Yr Esboniwr*, a chynorthwyodd i gyhoeddi'r *Geiniogwerth*, 1847. Pwysicach na hynny oedd cychwyn *Y Traethodydd*, 1845, mewn cydweithrediad â [Roger Edwards](#) a [Thomas Gee](#), ar batrwm *Blackwood's Magazine*, yr *Edinburgh Review*, a'r *Quarterly Review*. Ni ellir olrhain twf meddwl Cymru yn y 19eg ganrif heb wneuthur cyfrif o'i lyfrau pwysicaf: *Athrawiaeth yr lawn*, *Traethodau Llenyddol*, *Traethodau Duwinyddol*, *Hanes Duwinyddiaeth*, a *Person Crist*. Fel diwinydd bu'n gyfrwng i waredu diwinyddiaeth Cymru rhag ymrysonau di-fudd cyfnod y dadleuon, drwy agor ffenestri'r meddwl er mwyn i oleuni gwybodaeth o fyd hanes a llên a gwyddoniaeth beri bywyd eto ym mhrenhines y gwyddorau. Y mae ei draethodau ar 'Ysgolion leithyddol i'r Cymry,' 1849; 'Cyfnewidwyr hymnau,' 1850; 'Goethe,' 1851; 'Barddoniaeth y Cymry,' 1852; a 'Goronwy Owen,' 1876, yn ddogfennau pwysig yn natblygiad beirniadaeth lenyddol yng Nghymru. Enillodd ei gyfieithiadau o rai o emynau enwog y Saeson, 'God moves in a mysterious way' (Cowper), 'Abide with me' (H. F. Lyte), ac 'Onward Christian Soldiers' (S. Baring Gould), eu lle yn emynyddiaeth ei genedl.

Bu farw 19 Gorffennaf 1887, a chladdwyd ef ym mynwent Llanycil gerllaw bedd [Thomas Charles](#), Yr enwocaf o'i blant oedd [Thomas Charles Edwards](#), prifathro cyntaf Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth.

Awdur

Y Parchedig Trebor Lloyd Evans, (1909 - 1979)

Ffynonellau

T. C. Edwards, *Bywyd a Llythyrau y Diweddar Barch. Lewis Edwards, M.A., D.D.* (Liverpool 1901)

G. Tecwyn Parry, *Cofiant a Gweithiau Dr. Edwards* (1892)

T. R. Jones ('Clwydydd'), *Lewis Edwards, D.D., y Bala* (1909)

Darllen Pellach

John Hughes, [Y diweddar Barch. Lewis Edwards, D.D.: Rhai sylwadau ar ei wasanaeth a'i ddylanwad](#), *Y Geninen*, Cyf. VI, rhif 1, Ionawr 1888, tt.1-8

John Gwynoro Davies, [Er cof: bywgraffiad o'r diweddar Barch. Lewis Edwards, D.D., Prifathraw Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, Bala \(Bala 1887\)](#)

John Gwynoro Davies, [In memoriam: a short biographical sketch of the life of the late Rev. Lewis Edwards, D.D., Principal of the C.M. College, Bala \(1887?\)](#)

Erthygl Wicipedia: [Lewis Edwards](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [44042449](#)

Wikidata: [Q6536522](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

